



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar
Meithrinfa Seren Fach**

Brithdir

Dolgellau

Gwynedd

LL40 2RP

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2011

gan

**Eifion R Morgan
Arolygydd Cofnodol**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfodddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Lleolir Meithrinfa Seren Fach mewn hen gapel ym mhentref Brithdir, rhyw 3 milltir o'r môr ger Dolgellau. Mae'r capel wedi'i adnewyddu fel rhan o gynllun cymunedol. Apwyntiwyd rheolwr y feithrinfa ym mis Tachwedd 2005 ac agorwyd y feithrinfa yn Ionawr 2006. Yn dilyn cynnydd yn y galw am ragor o leoedd ychwanegwyd estyniad a'i gwblhau erbyn Medi 2010. Fel canlyniad, mae yna le i fwy o blant. Mae'r ardal chwarae tu allan wedi'i datblygu'n dda ac yn gyfleuster da iawn. Drwyddi draw, mae'r cyfleuster yn ddeniadol ac yn amgylchedd dysgu rhagorol. Mae'n gyfleuster cymunedol gwerthfawr iawn.

Y Feithrinfa yn unig sy'n defnyddio'r cyfleuster, sy'n cael ei weinyddu gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr gyda thri ohonynt yn Bersonau Cyfrifol sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Mae'r Feithrinfa yn darparu ar gyfer plant sy'n llai na blwydd oed i bedair oed ac fe'i lleolir mewn tair ystafell ar wahan. Yn ogystal, mae'n cynnig cyfleusterau ar ôl ysgol i blant i fyny at 8 oed. Ar hyn o bryd, mae 58 o blant ar y gofrestr gydag 8 ohonynt yn 3 oed. Mae hi wedi cofrestru gan AGGCC i dderbyn i fyny at 34 o blant ar yr un pryd ac i fyny at 14 plentyn 3 oed. Mae'r Feithrinfa ar agor am 5 diwrnod yr wythnos, rhwng 8 y.b. a 6 y.p. ar wahan i wyliau banc. Mae'r plant yn mynychu am gyfnodau gwahanol o amser yn ystod y dydd a'r wythnos.

Mae'r Feithrinfa yn denu plant o'r ardal gyfagos ond yn gynyddol daw plant o bellach i ffwrdd wrth i enw da'r Feithrinfa dyfu. Mae'r holl blant yn dod o gartrefi Cymreig tebygol ac ar y cyfan nid ydynt yn arbennig o freintiedig na difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. Daw'r mwyafrif o gartrefi Cymraeg eu hiaith gyda lleiafrif o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, lle mae'n bosibl bod un rhiant yn medru'r Gymraeg. Cymraeg yw iaith y Feithrinfa ac mae'r Feithrinfa yn elwa o staff sy'n medru'r Gymraeg. Nid oes unrhyw blant o gymunedau ethnig lleiafrifol ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw blentyn wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, mae'r Feithrinfa wedi cefnogi plant ag ADY yn y gorffennol ac yn gymwys iawn i dderbyn plant ag anghenion penodol a darparu cefnogaeth unigol yn ôl yr angen.

Mae digon o le parcio oddi ar y ffordd sy'n sicrhau diogelwch y plant sy'n dod i'r Feithrinfa. Mae'r prif ddrws, sydd yn cael ei gadw dan glo heblaw iddo gael ei agor gan aelod o staff, yn agor i gyntedd lle mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni yn cael ei harddangos. Mae drws arall, sydd hefyd yn cael ei gloi, yn agor i'r brif ystafell sef prif ystafell plant y feithrinfa. Caiff yr ystafell hon ei defnyddio hefyd fel ffreutur pan ddaw'r holl blant at ei gilydd i fwyta. Mae cegin â chyfleusterau da yn agor i'r ystafell hon sy'n golygu bod prydau poeth yn medru cael eu paratoi. Mae'r ystafelloedd a'r cyfleusterau eraill sy'n agor o'r ystafell hon yn cynnwys ystafell y babanod, yr ystafell staff a chyfleusterau toiled. Y tu hwnt i'r ystafell hon yn yr estyniad newydd, mae ystafell arall ar gyfer plant i fyny at 2½ oed, a swyddfa i reolwraig y Feithrinfa. Ceir mynediad i'r cyfleusterau tu allan drwy'r ystafell newydd. Mae'r tu allan yn darparu cyfleusterau eithriadol gan gynnwys ardal dan do,

arwynebau chwarae meddal, ardal o laswellt wedi'i dirlunio a phwll tywod yn ogystal ag amrywiaeth o deganau. Caiff y cyfleusterau tu allan eu hamgylchynu gan wal gerrig sych gyda golygfeydd gwledig helaeth.

Mae rheolwraig y Feithrinfa yn goruchwyllo 12 o staff sy'n cyd-weithio'n effeithlon. Mae tri aelod o staff yn cael eu cyflogi'n barhaol i oruchwyllo'r plant 3 oed o dan gyfarwyddyd is-reolwr. Mae gan bob un gymwysterau priodol.

Cafodd y Cylch ei arolygu gan AGGCC yn Ionawr 2011. Nid oedd unrhyw brif argymhellion. Nid yw'r Cylch wedi'i arolygu gan Estyn o'r blaen.

Crynodeb

Perfformiad presennol y Cylch	Da
Rhagolygon gwella'r Cylch	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys:

- yr hunanarfarnu a'r cynllunio sydd wedi sicrhau gwelliannau yn y cyfleusterau er lles y plant;
- yr arweinyddiaeth sydd wedi darparu'r Feithrinfa â chyfeiriad strategol a synnwyr o bwrpas gan hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n llwyddiannus.

Mae'r nodweddion da yn cynnwys:

- safonau cyflawniad y plant a'r cynnydd maent yn ei wneud;
- datblygiad medrau'r plant, yn enwedig eu medrau iaith a llythrennedd;
- agweddau'r plant at eu dysgu a'u hymddygiad;
- cynllunio er mwyn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen;
- ansawdd yr addysgu i ddiwallu anghenion unigol y plant;
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol;
- y gefnogaeth gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddogion cynorthwyol Mudiad Ysgolion Meithrin.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ragorol oherwydd:

- hanes da llwyddiannus y lleoliad o gynllunio a sicrhau gwelliannau;

- gallu'r lleoliad i wneud gwelliannau;
- y targedau heriol sydd wedi eu cyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf;
- ansawdd yr adnoddau sy'n cyfateb i anghenion y plant;
- y pwyslais ar hyfforddi staff i fodloni eu hanghenion proffesiynol ac sydd yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant.

Argymhellion

Er mwyn gwella'n ymhellach, mae angen i'r lleoliad;

A1 ddefnyddio canlyniadau'r asesu i nodi'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant ac i gynllunio yn ôl yr angen;

A2 gweithredu cynlluniau fel bod y plant yn medru defnyddio'r cyfleusterau tu allan fel rhan o'u gweithgareddau dewis rhydd;

A3 ymhen amser, datblygu proffil asesu sylfaen ar gyfer pob plentyn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig sy'n disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	Da
---	-----------

Safonau: Da

Mae'r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd effeithiol ymhob maes dysgu. Maent yn cymryd rhan yn weithredol ac yn mynd i'r afael â'u tasgau yn gyson. Mae'r plant yn dyfalbarhau ac yn canolbwyntio ar eu gweithgareddau, gan ddangos ymrwymiad da i'w gwaith.

Mae'r holl blant yn datblygu medrau cyfathrebu da. Mae ganddynt eirfa dda sy'n datblygu ac yn medru sgwrsio'n effeithiol â'i gilydd a gyda oedolion. Mae'r plant yn

defnyddio iaith briodol wrth chwarae; maent yn gwranddo ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau. Mae cefndir y rhan fwyaf o'r plant yn eu galluogi i sgwrsio'n hyderus yn yr iaith Gymraeg, ac mae'r plant o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu rhuglder nodedig yn yr iaith. Mae'r holl blant yn mwynhau canu caneuon actol a rhigymau yn y Gymraeg ac mae ganddynt repertoire da.

Mae'r holl blant yn mwynhau storiâu ac mae llawer yn medru cofio digwyddiadau a chymeriadau yn y storiâu maent wedi'u clywed. Mae'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau, gan eu dal yn briodol a dilyn y stori. Yn ogystal, mae'r holl blant yn arbrofi gyda chreu marciau ac mae eu llyfrau gwaith yn dangos eu bod yn gwneud cynnydd nodedig. Mae'r plant hefyd yn gwybod am rai o swyddogaethau ysgrifennu. Mae llawer o blant yn medru amlinellu llythrennau'r wyddor ac adnabod llythrennau gyntaf eu henw. Mae ychydig o blant yn medru llunio rhai llythrennau yn y tywod a llwch sialc.

Mae syniadau mathemategol y plant yn datblygu'n dda – mae'r rhan fwyaf yn medru cyfrif hyd at bump ac ychydig i ddeg. Maent yn adnabod patrwm a dilyniannau mewn rhifau. Mae'r plant yn gwybod bod botymau a switsys yn gweithio offer electronig ac yn gyfarwydd â rhaglenni cyfrifiadurol syml.

Lles: Da

Mae'r holl blant yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu a mwynhad wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau gwahanol a osodir ar eu cyfer. Mae'r Feithrinfa yn cyflogi cogydd ac mae'r pwyslais ar ddarparu bwyd maethlon, bwyd cartref a lleol er mwyn hyrwyddo arferion bwyta'n iach. Mae amser byrbryd a chinio yn gyfnodau cymdeithasol da. Mae'r plant yn dangos wrth eu hymddygiad eu bod yn teimlo'n ddiogel ac mae nifer digonol o gyfleusterau i'r plant fwynhau a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

Mae'r plant yn cyd-weithio'n dda ac yn hapus i wneud – maent yn cael eu cyflwyno â dewis da o weithgareddau a chyfleoedd i wneud dewisiadau ynglŷn â'r hyn maent eisiau ei wneud. Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleusterau tu allan sy'n dda iawn ond nid oes ganddynt fynediad rhydd atynt yn ystod y dydd. Fodd bynnag, maent yn cael cyfleoedd fel grŵp.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r cynllunio yn fanwl ac yn ymateb yn hyblyg i ddiddordebau'r plant. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad yr holl blant. Mae'r profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n dda i fodloni nodau cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn y modd y cynllunir gweithgareddau i bob un o'r chwe maes dysgu. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth presennol y plant yn enwedig ar ddatblygiad eu medrau.

Mae'r cynllunio yn cynnwys ystod eang o weithgareddau ac yn annog plant i ddod yn ddysgwyr hyderus ac i ddatblygu rhywfaint o annibyniaeth. Mae medrau creadigol y plant wedi'u datblygu'n dda ac mae eu llyfrau gwaith yn dangos y gwahanol deunyddiau a thechnegau maen nhw wedi'u defnyddio. Mae hyn yn cynnwys defnyddio sisyrnau i dorri papur, a gludo a pheintio eu modelau i fynegi eu syniadau.

Yn ogystal, mae'r plant wedi astudio bywydau plant eraill ar draws y byd ac mae hyn yn eu helpu i werthfawrogi anghenion pobl eraill a'u ffordd o fyw.

Mae'r cynllunio yn rhoi pwyslais da ar y datblygiad o fedrau'r plant ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r rhyngweithio rhwng oedolion a phlant yn hynod o effeithiol wrth ddatblygu ac ymestyn eu hiaith ac wrth datblygu eu medrau meddwl. Mae'r oedolion yn fedrus yn y ffordd maent yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau'r plant ymhob maes dysgu, yn enwedig yn eu medrau cyfathrebu. Mae canfyddiadau'r plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru wedi'u datblygu'n dda.

Mae'r plant yn dechrau deall yr angen i ail-gylchu – fel ail-gylchu papur.

Addysgu: Da

Mae gan yr holl staff brofiad da ac mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gyfoes o ddatblygiad plant. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r holl blant, gan gynnwys eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Nodwedd da a nodedig yw dealltwriaeth y staff o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae hyn yn sicrhau pwyslais priodol ar ddatblygiad medrau cynyddol y plant.

Cynllunir cyd-bwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'u harwain gan oedolion. Yn ogystal, mae'r gweithgareddau yn ddigon heriol i fodloni anghenion gwahanol y plant. Mae gan yr oedolion ddealltwriaeth dda o bryd i ymyrryd yng nghweithgareddau'r plant a phryd i adael plant i weithio'n annibynnol.

Mae'r staff yn fodolau iaith da ac mae'r plant yn cael eu trochi'n llwyr yn yr iaith. Caiff cwestiynu ei ddefnyddio'n dda i ddatblygu medrau meddwl y plant. Drwyddi draw, mae'r addysgu llwyddiannus yn ganlyniad i'r cynllunio a wneir ar y cyd a chynlluniau wythnosol manwl.

Caiff y plant eu hasesu'n rheolaidd ac mae'r staff yn cofnodi cyflawniadau'r plant yn eu llyfrau nodiadau. Mae arsylwadau'r staff yn cael eu trosglwyddo i gofnodion unigol y plant. Mae'r rhain yn disgrifio cyflawniadau'r plant gyda'r dyddiad arnynt fel modd i fonitro cynnydd. Ar ddiwedd pob wythnos, mae asesiad cyffredinol y plentyn ar y tasgau wythnosol yn cael eu nodi a defnyddir hyn wrth gynllunio gwaith yr wythnosau i ddod. Mae'r system yn effeithiol wrth sicrhau dilyniant a pharhad yn y gweithgareddau a addysgir, ond nid yw bob tro'n nodi'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol fel bod tasgau yn medru cyfateb yn dda ag anghenion unigol.

Mae rhieni yn derbyn adroddiad manwl ar gyflawniadau a chynnydd eu plant, ond nid yw bob tro'n awgrymu'r hyn y gallant ei wneud i helpu'r plant i wella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae` Feithrinfa yn llwyddiannus wrth hyrwyddo iechyd a lles y plant. Caiff yr holl blant ofal da ac mae`r system gweithiwr allweddol yn sicrhau bod y staff yn adnabod y plant yn dda. Yn ystod yr arolygiad roedd y staff i weld yn ymateb yn arbennig o dda i anghenion unigol y plant. Mae rhestr o weithwyr allweddol a`r plant maent yn gyfrifol amdanynt yn cael ei harddangos yn y cyntedd ar gyfer rhieni ei gweld. Mae`r plant yn dangos eu bod yn hapus ac yn teimlo`n ddiogel. Mae teimlad cartrefol rhagorol yn y Feithrinfa ac mae hyn yn effeithiol wrth ddatblygu dealltwriaeth y plant o fod yn rhan o gymuned glos. Yn ogystal, mae`n meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch. Mae`n galluogi`r plant ifanc yma i werthfawrogi a gwahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir, a thrwy hynny hyrwyddo eu datblygiad moesol a chymdeithasol.

Drwyddi draw, mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda.

Caiff y plant eu parchu`n dda fel unigolion ac mae`r staff yn ymwybodol o`u hanghenion penodol. Mae`r rhieni a`r gofalwyr yn medru mynd at staff y Feithrinfa wrth gyrraedd gyda`u plant ac wrth eu casglu. Mae hyn yn caniatáu trafodaeth anffurfiol a chyfle i drosglwyddo gwybodaeth. Yn ogystal, mae gan bob plentyn ddyddiadur personol sy`n cael ei lenwi gan y gweithiwr allweddol ac yn cael mynd adre bob dydd gyda`r plentyn. Mae hyn yn galluogi`r rhieni i fod yn ymwybodol o`r gweithgareddau dyddiol ac unrhyw faterion, fel arferion bwyta ac ymddygiad.

Pan fydd angen, mae`r Feithrinfa yn gwneud defnydd o gefnogaeth broffesiynol wrth wasanaethau arbenigol fel ymwelwyr iechyd a therapyddion lleferydd. Ond cyswllt cyntaf y Feithrinfa yw`r rhieni ac mae hyn yn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o unrhyw argymhellion a wneir gan y Feithrinfa ac yn cael eu cynnwys mewn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Rheolwraig y Feithrinfa yw`r person sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn plant a materion diogelu plant ac mae`r holl staff yn ymwybodol o`u rolau a`u cyfrifoldebau. Mae gan y lleoliad bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith o ran amddiffyn plant sy`n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Mae`r staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a phriodol.

Mae unrhyw blentyn dan amheuaeth o gael anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael goruchwyliaeth ofalus. Yn gyntaf, mae trafodaeth â rhieni, sy`n cael eu cynnwys yn llawn yn ystod pob cam, yn enwedig os yw asiantaethau allanol yn rhan o`r broses. Yn y gorffennol, mae`r Feithrinfa wedi darparu cefnogaeth 1:1 yn ôl yr angen, gan sicrhau fod gan y plentyn fynediad llawn i bob maes dysgu.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan y Feithrinfa ethos ardderchog sy'n gyfeillgar, croesawgar ac yn hollol gynhwysol. Mae'n sensitif i anghenion plant ac yn cynnig awyrgylch cynnes a chartrefol i'r plant. Mae agwedd oddefgar yn treiddio drwy'r lleoliad ac mae'r holl blant yn dangos parch a gofal at ei gilydd.

Mae'r holl blant yn hollol rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae'r holl blant yn cael eu cefnogi'n dda ac nid oes unrhyw blentyn yn cael ei adael/ei gadael heb oruchwyliaeth am unrhyw gyfnod o amser. Yn y gorffennol, mae'r plant ag anabledau wedi eu cefnogi'n dda gan wneud cynnydd da. Mae gweithdrefnau cwyno ar waith ond nid oes unrhyw gwynion wedi digwydd ers i'r Feithrinfa agor.

Mae gan y Feithrinfa ddiogn o staff ac mae ganddynt gymwysterau perthnasol a phriodol a phrofiad o weithio â phlant ifanc. Mae'r ystafelloedd o ansawdd uchel ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r adnoddau o ansawdd da, yn addas ac yn ddigonol i ddiwallu anghenion a gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae adnoddau'r Feithrinfa tu allan yn rhagorol ac yn darparu ardaloedd chwarae a gweithgareddau arbennig ar gyfer y plant. Fodd bynnag, nid oes gan y plant fynediad rhydd i'r cyfleusterau hyn sy'n cyfyngu eu cyfleoedd ar gyfer chwarae tu allan. Mae gan y plant, fodd bynnag, gyfleoedd rheolaidd ar amserlen i ddefnyddio'r cyfleusterau ond nid ydynt yn penderfynu yn unigol neu mewn grwpiau bach pryd y gallant chwarae tu allan.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae rheolwraig y Feithrinfa yn rhoi arweinyddiaeth hynod o effeithiol a rhagorol i'r Feithrinfa. Mae ei dylanwad yn treiddio drwy bob agwedd o'r lleoliad ac yn ei ddarparu ac amcanion clir a nodau strategol sy'n canolbwyntio ar gyflwyno darpariaeth sy'n bodloni anghenion y plant yn llawn. Caiff rheolwraig y Feithrinfa ei chefnogi'n dda iawn gan ei staff sy'n deall ac yn cyflawni eu rolau gan ganolbwyntio ar ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r plant.

Mae synnwyr o ddiben yn treiddio drwy'r Feithrinfa sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau. Mae ethos cadarnhaol yn amlwg a disgwyliaid uchel o'r plant yn nhermau agwedd, ymddygiad a pherfformiad. Mae'r staff a'r plant yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion a'u barn yn cael eu parchu. Mae rheolwraig y Feithrinfa yn cael ei chefnogi'n dda gan reolwraig cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb pennaf dros ddsbarth y plant 3 oed. Anogir y rhieni i gefnogi addysg eu plant.

Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd a chaiff yr holl staff eu gwerthuso'n flynyddol. Mae'r holl staff wedi'u sefydlu'n briodol ac wedi parhau â'u hyfforddiant proffesiynol sydd wedi arwain at well gyfraniadau er lles y plant.

Drwyddi draw, mae'r Feithrinfa yn hynod o effeithiol wrth ddarparu plant ag amrywiaeth eang o brofiadau perthnasol ac mae hyn yn adlewyrchu arweinyddiaeth effeithiol iawn y lleoliad.

Mae cysylltiadau rhagorol yn bodoli gyda rhieni sydd o fudd i addysg y plant.

Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi bod ac yn dal i fod yn ddylanwadol iawn yn natblygiad y Feithrinfa. Maent yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn effeithiol a thros y blynyddoedd diwethaf, maen nhw wedi rheoli trawsnewidiad yr adeilad cyfredol i ddarpariaeth effeithiol iawn ar gyfer plant cyn oed ysgol. Fel bod nifer y plant wedi cynyddu, mae'r lleoliad wedi datblygu ymhellach gan ymestyn y cyfleusterau sydd ar gael i'r plant. Mae'r ddarpariaeth uwch hon yn darparu'r plant ar hyn o bryd â phrofiadau rhagorol. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cefnogi'r Feithrinfa yn llawn ac wedi ystyried deddfwriaeth berthnasol.

Mae'r Feithrinfa yn bodloni dyletswyddau cyfreithiol yn llawn.

Mae'r Feithrinfa wedi cymryd ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n llawn a rhoddir sylw dyledus i ddatblygiad medrau a'r iaith Gymraeg. Mae'r Feithrinfa yn cymryd ystyriaeth dda iawn o fentrau bwytan iach.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae'r Feithrinfa yn esiampl ragorol o'r hyn y gellir ei gyflawni mewn cymuned sydd â gweledigaeth, cynllunio effeithiol a graddfa uchel o ymroddiad. Ar bob cam, cafodd agweddau ar gyfer gwella eu blaenoriaethu gan lunio strategaethau. Nodwyd cryfderau a meysydd i'w gwella yn y broses hunanarfarnu ac ar bob cam roedd y canlyniadau wedi sicrhau enillion cadarnhaol i'r plant.

Cysylltwyd â rhieni yn rheolaidd gan gydnabod eu safbwyntiau. Enghraifft ardderchog o hyn oedd pan ddaeth yr adeilad gyntaf yn rhy fach i dderbyn y nifer o blant a allai fod ar y gofrestr. Yn fwyfwy roedd hyn yn cynnwys dymuniadau rhieni o ardaloedd pellach wrth i enw da'r Feithrinfa dyfu. Mewn ymateb i ymatebion rhieni roedd y Feithrinfa wedi ymgymryd ag estyniad i'r adeilad gyda'r gwaith adnewyddu anghenrheidiol. Cafodd hyn ei gwblhau'n llwyddiannus ynghyd â'r ddarpariaeth o adnoddau rhagorol tu allan i'r plant.

Mae'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau tu allan yn eithriadol ar gyfer Meithrinfa nas cynhelir yn y modd mae'n cynnwys amrywiaeth eang o offer chwarae a theganau ar gyfer plant. Mae hyn yn cynnwys lle dan do sydd wedi'i adeiladu'n dda, ardaloedd chwarae meddal, ardaloedd o lawr caled ac offer dringo. Ar y cyfan, mae'n ddarpariaeth ragorol ar gyfer y plant ac yn effeithiol iawn wrth ddatblygu eu medrau echddygol bras. Mae safbwyntiau'r plant wedi eu rhoi ar waith yn llawn.

Mae'r Feithrinfa yn parhau i gynrychioli darpariaeth o ansawdd uchel gyda rhai agweddau rhagorol o ganlyniad i wella ansawdd hynod o effeithiol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r gweithgareddau partneriaeth effeithiol sydd wedi'u datblygu'n dda yn gwneud cyfraniad cryf i gyflawniadau da a lles y plant. Mae rheolwraig y Feithrinfa, gyda chefnogaeth ei staff, yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni. I ddechrau, mae darpar rhieni yn derbyn llawlyfr ar gyfer rhieni sy'n rhoi gwybodaeth iddynt am y Feithrinfa a'u gwahodd i ymweld â'r Feithrinfa gyda'u plentyn. Maent yn cael cyfleoedd i drafod polisiâu a gweithdrefnau gyda rheolwraig y Feithrinfa. Mae hyn yn eu galluogi i wneud dewisiadau doeth am y math o wasanaeth sydd ar gael i'w plant.

Caiff gwybodaeth berthnasol ei harddangos yn y cyntedd ac mae rhieni yn derbyn cylchlythyron rheolaidd sy'n rhoi gwybodaeth gyfredol iddynt. Mae'r plant sy'n dechrau yn y Feithrinfa yn cael eu cefnogi gan rieni cyhyd ag y bo angen ac mae gweithwyr allweddol ar gael bob amser ar gyfer trafodaethau anffurfiol â rhieni. Mae hyn yn sicrhau trosglwyddiad esmwyth o'r cartref i'r Feithrinfa. Mae'r llyfr nodiadau personol sy'n mynd adref gyda phob plentyn yn ffordd ddefnyddiol ac effeithiol arall o gyfathrebu rhwng y Feithrinfa a'r cartref. Yn ogystal caiff rhieni adroddiadau tymhorol a diwedd blwyddyn. Mae'r rhain yn fanwl ac yn disgrifio'r hyn mae'r plentyn wedi'i gyflawni. Mewn trafodaeth, dywed rhieni y byddent yn argymhell y Feithrinfa i eraill heb oedi.

Ceir cyfathrebu rheolaidd â'r ysgol gynradd leol. Fodd bynnag, mae nifer o blant yn mynychu ysgolion eraill gryn bellter o'r Feithrinfa sy'n golygu bod cysylltu â nhw yn fwy anodd.

Mae cysylltiadau da ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a chynrychiolydd o Fudiad Ysgolion Meithrin. Mae eu chefnogaeth a'u cyngor wedi bod yn werthfawr wrth sefydlu'r cyfleusterau da iawn.

Rheoli adnoddau: Da

Caiff adnoddau eu rheoli'n dda a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae gan y rheolwraig a'r staff ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen i gefnogi dysgu'r plant ac i gyflawni nodau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac mae'r cyfleusterau chwarae tu allan yn eithriadol. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi sicrhau cyfleusterau da iawn ar gyfer y plant.

Drwyddi draw, mae'r Feithrinfa yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn ddiethriad, roedd ymatebion pob holiadur a dderbyniwyd, a thrafodaeth gyda sampl o rieni, yn hollol gefnogol o'r Feithrinfa. Roedd pob un ohonynt yn "cytuno'n gryf" â'r datganiadau canlynol sy'n ymddangos yn holiaduron y rhieni.

- rwy'n fodlon â'r lleoliad at ei gilydd;
- mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn;
- cafodd fy mhlentyn ei helpu i ymgartrefu'n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad;
- mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad;
- mae'r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad;
- mae'r addysgu yn dda;
- mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt;
- rwy'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem;
- rwy'n deall gweithdrefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion;
- mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol;
- mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

Nid oedd unrhyw ymatebion yn nodi unrhyw anghytuno – adlewyrchwyd hyn mewn trafodaeth â rhieni.

Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r holl blant yn mwynhau dod i'r Feithrinfa a chyfarfod â'u ffrindiau. Maent yn hyderus gyda'u gweithwyr allweddol a staff eraill gan ofyn cwestiynau a siarad yn naturiol â nhw. Maen nhw'n mwynhau'r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer ac yn aml yn ymlacio gyda llyfrau, yn enwedig yn ystod yr egwyl ginio. Mae'r amserau byrbryd ac egwyl yn achlysuron cymdeithasol pan mae'r plant yn sgwrsio'n rhydd. Mae'r plant wedi ymlacio'n llwyr yn y lleoliad gan fwynhau'r awyrgylch cartrefol a bod gyda oedolion.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan	Arolygydd Cofnodol
--------------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn
(www.estyn.gov.uk)